# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Deri / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9921-8



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 5

3. Yr hyn a ganfuom ........ 6

   Ansawdd profiad y claf ........ 7

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 11

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 17

4. Beth sydd nesaf? ........ 19

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 20

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 21

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 22

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 23

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd yn ganolog i’r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Deri yn Stryd y Bont, Llanfair Caereinion, SY21 0RZ, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 13 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Deri'n darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion, gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Gweithredu mecanwaith ffurfiol i gasglu safbwyntiau cleifion

- Y ffordd mae cyffuriau ac offer brys yn cael eu rheoli a’u storio
- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth
- Cofnodi rhagor o fanylder mewn cofnodion clinigol cleifion
- Sicrhau y rhoddir cynllun triniaeth i'r holl gleifion
- Cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid.
-

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Deri yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Trallwng. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Deri yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig. Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Dw i'n hapus gyda'r gwasanaeth. Cyfeillgar iawn'*
>
> *'Dylid cadw'r staff presennol. Maent yn gwrtais ac yn garedig iawn'*
>
> *'Dw i'n hapus gyda'r practis fel y mae'*
>
> *'Gwasanaeth da iawn'*

### Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain.  Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' yn cael eu harddangos yn y practis.

### Gofal ag urddas

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion, er mwyn iddynt gynnal sgyrsiau preifat a chyfrinachol wrth ymdrin â negeseuon ffôn gan gleifion.

### Gwybodaeth cleifion

Roedd y practis yn darparu amrediad o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gynllunio triniaeth yn y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth unigol.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau'r GIG ar gael i'w gweld yn y man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Fodd bynnag, nid oedd rhestrau prisiau'n cael eu harddangos ar gyfer triniaeth breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau y rhoddir cynllun triniaeth i'r holl gleifion.

Sicrhau bod rhestr prisiau ar gyfer triniaeth breifat yn cael eu harddangos.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn siaradwr Cymraeg. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Gwelsom fod gan y practis rywfaint o wybodaeth iechyd y geg ar gael yn ddwyieithog.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau'r tu allan i oriau pe bai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn hwn yn cael ei arddangos ar bwys y brif fynedfa, roedd yn nhaflen wybodaeth y practis, ac fe'i rhoddid hefyd ar neges y peiriant ateb.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Cadarnhaodd yr holl gleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u triniaeth unigol.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a methu â gweld unrhyw dystiolaeth o opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd cydsyniad cleifion yn cael eu cofnodi o fewn cofnodion cleifion bob amser.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r practis, ac fe'n hysbyswyd ni bod y rhain yn cael eu gwirio ar lafar yn ystod pob apwyntiad. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ffurflenni meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd. Bu i'r holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanesion meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth ddeintyddol. Gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i sicrhau bod y ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod opsiynau triniaeth a drafodir yn cael eu nodi o fewn cofnodion cleifion.

Sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol cleifion yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfleoedd cyfartal ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru hwn a'i wneud yn benodol i'r practis.

Lleolir y practis ar y llawr daear, sy'n llawn hygyrch ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu a diweddaru'r polisi cyfleoedd cyfartal.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion am driniaeth y GIG, ac roedd yn cael ei arddangos yn glir yn y man aros. Roedd taflenni dwyieithog hefyd ar gael i gleifion fynd â nhw. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer triniaeth breifat.

Gwelsom fod gan y practis ffeil gwynion neilltuedig ar waith gyda gweithdrefnau clir i ymdrin â chwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dywedodd y practis wrthym nad oedd ganddynt system ffurfiol ar waith i gasglu safbwyntiau cleifion. Fodd bynnag, mae ganddynt flwch sylwadau yn y dderbynfa. Gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion roi eu hadborth. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros/derbynfa i ddangos i gleifion ei fod yn gweithredu yn dilyn adborth a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu a diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys triniaeth breifat.

Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod bod angen rhai gwelliannau o ran rheoli meddyginiaeth a chofnodion cleifion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan.  Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion a staff, ac roedd arwyddion clir ar gyfer y cyfleuster ac roedd i'w weld yn lân. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol ar waith.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal mewn modd priodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.  Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniau'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod y gwastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled.

Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

### Atal a rheoli heintiau

Roedd dadheintio'r offer deintyddol yn cael ei wneud o fewn yr ystafell driniaeth, ac roeddem yn fodlon bod y trefniadau a oedd ar waith mor effeithiol ac addas ag y gallent fod o ystyried mai dim ond un ystafell driniaeth a oedd yn y practis deintyddol hwn, ac nad oes ystafell ddadheintio ar wahân. O fewn yr ystafell driniaeth, roedd man dynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio, a chanfuom fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer arfer gorau.

Canfuom fod offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n gywir, ac yn cael eu bagio, eu dyddio a'u llofnodi â llythrennau enwau cyntaf staff. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd rhai offerynnau wedi cael eu dyddio na'u llofnodi â llythrennau cyntaf staff. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod yr holl offerynnau sy'n cael eu storio a'u bagio'n cael eu dyddio'n glir ar ôl iddynt gael eu sterileiddio a'u bagio.

Roedd y llyfr lòg yr oedd y practis yn cofnodi'r broses o gynnal a sterileiddio offer ynddo'n wedi'i drefnu'n dda.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o'u gweithdrefnau rheoli heintiau a dadheintio, ond nid oeddent wedi defnyddio'r dull a gefnogir gan Ddeoniaeth

Cymru.[1] Rydym yn argymell eu bod yn defnyddio hwn gan ei fod wedi'i alinio i Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Defnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod cyffuriau megis midazolam yn cael eu cadw'n ddiogel o dan glo dros nos.

Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd yr holl staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod midazolam yn cael ei gadw'n ddiogel o dan glo dros nos.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, roedd hwn yn ymwneud â phlant yn bennaf. Roedd gan y practis siartiau llif priodol ar gyfer

---

[1] https://www.walesdeanery.org/cy

plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethom argymell bod y practis yn adolygu ei bolisi diogelu, gan sicrhau ei fod yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion ar fin cael ei adnewyddu ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis. Roedd y nyrs ddeintyddol hefyd ar fin adnewyddu ei hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl hyfforddiant perthnasol eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer yr holl staff yn y practis.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod gan yr holl staff wiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu a diweddaru'r polisi diogelu i sicrhau ei fod yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth a chanfod ei bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen ailwampio ac uwchraddio'r ystafell driniaeth. Fe'n hysbysodd y practis ni y byddant yn symud i mewn i adeilad newydd wedi'i godi i'r pwrpas o fewn tua 12 i 18 mis.

Gwnaethom hysbysu'r practis bod angen rhai mesurau dros dro yn yr ystafell driniaeth nes i'r practis adleoli. Gwnaethom argymell bod y practis yn selio ymylon y llawr i'w wneud yn haws ei lanhau, ac y dylid newid unrhyw rannau sydd wedi cael eu difrodi.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd label ar y drws yn nodi ei bod yn ardal ymbelydredd a reolir.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn ddiweddar.  Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid selio ymylon llawr yr ystafell driniaeth i’w wneud yn haws ei lanhau, a dylid newid unrhyw rannau sydd wedi cael eu difrodi.

Sicrhau y rhoddir sticer priodol ar ddrws yr ystafell driniaeth i nodi ei bod yn ardal ymbelydredd a reolir.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni welsom fod gan y practis raglen ar waith ar gyfer ymgymryd ag amrediad eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom argymell bod y practis yn gweithredu rhaglen o archwiliadau trwy gydol y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cadarnhaodd y practis nad oeddent wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.  Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae’n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a’r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Fe'n hysbysodd y practis ni hefyd nad oedd adolygiad gan gymheiriaid o staff clinigol wedi cael ei gynnal yn y practis. Fodd bynnag, mae ganddynt gynlluniau ar waith gyda deintydd lleol. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

Cyflwyno adolygiadau gan gymheiriaid clinigol.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol.  Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion papur cleifion. Ar y cyfan, gwnaethom nodi bod y gwaith o gofnodi archwiliadau'n gwella. Fodd bynnag, mae angen cofnodi rhagor o wybodaeth o fewn cofnodion unigol cleifion, yn enwedig mewn perthynas ag archwiliadau periodontol sylfaenol, sgrinio am ganser, a'r cyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu a roddir i gleifion.

Gwnaethom nodi hefyd bod sganiau pelydr-X yn cael eu cofnodi o fewn lòg canolog a'u cadw ar wahân i nodiadau clinigol cleifion. Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai sganiau pelydr-X gael eu trosglwyddo i gofnodion clinigol cleifion hefyd, ynghyd â'r cyfiawnhad a’r canfyddiadau clinigol, gan nodi gradd briodol y delweddau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gwella nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:

- Archwiliadau periodontol sylfaenol
- Sgrinio am ganser
- Cyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu
- Rhaid cyfiawnhau, graddio ac adrodd am yr holl sganiau pelydr-X mewn cofnodion cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom fod y practis hwn yn cael ei redeg yn dda gyda staff ymroddedig.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Un deintydd a oedd yn berchennog ac yn rheolwr Practis Deintyddol Deri, ac roedd yn cael ei chefnogi gan un nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu swyddi. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd staff eu bod yn teimlo bod y cyfathrebu o fewn y practis yn dda a'u bod yn gallu trafod unrhyw broblemau â holl aelodau'r tîm.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd a gwnaethom argymell bod y practis yn cadw cofnodion ffurfiol o'r cyfarfodydd hyn a chynnwys rhestr o'r rhai sy'n bresennol.

Roedd y deintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod tystysgrif cofrestriad AGIC yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y ddeintyddfa fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau

Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif yn cynnwys y cyfeiriad anghywir ar gyfer AGIC. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt ddyroddi copi o'r dystysgrif.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith gan y practis. Nid oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau adolygu a/neu nid oedd y fersiynau'n cael eu rheoli, ac nid oedd rhai wedi cael eu hadolygu ers nifer o flynyddoedd. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod wedi'u gwneud yn benodol i'r practis, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a bod y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Sicrhau bod tystysgrif cofrestriad AGIC gyfredol yn cael ei harddangos ar gyfer y deintydd.

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cael eu gwneud yn benodol i'r practis, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made ahttp://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Deri

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon lle roedd angen sicrwydd ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Deri

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Sicrhau y rhoddir cynllun triniaeth i'r holl gleifion. | 4.2 Gwybodaeth i gleifion | Cyflwynwyd FP17DW. | Souad Fawaz | Ar unwaith |
| Sicrhau bod rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth breifat yn cael eu harddangos. | | Llunio rhestr brisiau/rhoi copi yn y dderbynfa. | Souad Fawaz | Ar unwaith |
| Sicrhau bod opsiynau triniaeth a drafodir yn cael eu nodi o fewn cofnodion cleifion. | 6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth | Gweler 4.2 | Souad Fawaz | Ar unwaith |
| Sicrhau bod ffurflenni hanes meddygol cleifion yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth. | | Mae gan ein taflenni hanes meddygol cleifion cyfredol adran adolygu dros y dudalen ar gyfer y cydlofnod. | Cyflwynwyd dwy flynedd yn ôl | Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru'r polisi cyfleoedd cyfartal. | 6.2 Hawliau pobl | Diweddarwyd y polisi cyfredol a byddwn yn parhau i ddilyn adroddiad Caldicott. | Nyrs ddeintyddol | Ar unwaith |
| Adolygu a diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys triniaeth breifat. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae'r protocolau a'r polisi cwynion cyfredol wedi cael eu diweddaru. | Nyrs ddeintyddol | Ar unwaith |
| Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld. | | Mae holiadur cleifion wedi cael ei ddylunio gan ddefnyddio Admore yn ganllaw. | Tîm Deintyddol | Wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2017 oherwydd gwyliau blynyddol. |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Mae Initial Medical wedi darparu'r bin gwastraff glanweithiol. | Helen Evans | Ar unwaith |
| Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). | | Prynwyd llyfr cofnodi damweiniau RIDDOR. | Tîm Deintyddol | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Cyflwynwyd dull archwilio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Helen Evans | Bydd yr archwiliad nesaf ym mis Rhagfyr 2018. |
| Sicrhau bod midazolam yn cael ei gadw'n ddiogel o dan glo dros nos. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae midozalam eisoes yn cael ei storio mewn cwpwrdd ac arno glo gwrth-blentyn mewn cynhwysydd ac iddo gaead. Mae midozalam bellach yn cael ei roi mewn tun o dan glo dros nos. | Helen Evans | Ar unwaith |
| Sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Mae Souad Fawas wedi mynychu cwrs. Trefnwyd i'r aelodau tîm eraill fynychu eu cwrs diweddaru ym mis Awst 2017. | Helen Evans | 8 Awst 2017 yn y prynhawn |
| Dylid selio ymylon llawr yr ystafell driniaeth i'w wneud yn haws ei lanhau, a dylid newid unrhyw rannau sydd wedi cael eu difrodi. | 2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Gofynnwyd i'n saer ni. Bydd e wedi gorffen erbyn diwedd y mis. | Souad Fawaz | Hwyr ym mis Awst |
| Sicrhau y rhoddir sticer priodol ar ddrws yr ystafell driniaeth i nodi ei bod yn ardal ymbelydredd a reolir. | | Prynu sticer ar gyfer drws yr ystafell driniaeth. | Souad Fawaz | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Yr archwiliadau sydd yn yr arfaeth: archwiliad gwastraff clinigol; archwiliad meddygol; ac archwiliad sefydliadol. | Tîm Deintyddol | Dyddiad dechrau – mis Hydref |
| Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Cyflwyno Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru ar gyfer Deintyddiaeth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gesglir yn ystod archwiliadau deintyddfa arferol ochr yn ochr â'r archwiliadau. | Souad Fawaz | Rhagfyr 2017/Ionawr 2018 |
| Cyflwyno adolygiadau gan gymheiriaid clinigol. | | Mae cryfderau, gwendidau a ffactorau achosol yn cael eu hadolygu ar lafar yn rheolaidd ar hyn o bryd. Yr hyn mae angen ei wneud nawr yw cofnodi'r dystiolaeth. | Souad Fawaz | Hydref/Tachwedd 2017 |
| Rhaid gwella nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:<br>• Archwiliadau periodontol sylfaenol<br>• Sgrinio am ganser | 3.5 Cadw cofnodion | Mae templed wedi cael ei ddylunio a'i roi ar waith er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn. Bydd y rhain yn cael eu hasesu'n ddyddiol ac yn fisol i benderfynu a yw'r templed yn addas a'i | Tîm Deintyddol | Ar unwaith gydag elfen o hyblygrwydd i'w addasu. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| • Cyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu<br>• Rhaid cyfiawnhau, graddio ac adrodd am yr holl sganiau pelydr-X mewn cofnodion cleifion. | | newid os oes angen. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. | 7.1 Gweithlu | Bydd pob aelod tîm yn cymryd ei dro i gofnodi rhagor o wybodaeth yn y llyfr cyfarfodydd tîm cyfredol. | Tîm Deintyddol | Yn parhau |
| Sicrhau bod tystysgrif cofrestriad AGIC gyfredol yn cael ei harddangos ar gyfer y deintydd. | | Gwnaed cais am dystysgrif newydd (yn ystod yr arolygiad). | Susan Mellor | Wedi'i derbyn a'i harddangos |
| Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cael eu gwneud yn bendodol i'r practis, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff. | | Cafodd y protocolau cyfredol eu gwirio yn erbyn y dystiolaeth ddiweddaraf, a'u newid lle roedd angen. Gweithredwyd sticeri dyddiad adolygu. Mae'r holl aelodau staff wedi darllen a llofnodi'r dogfennau diwygiedig. Mae'r gyfundrefn sefydlu hefyd wedi cael ei diweddaru i | Helen Evans | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gynnwys unrhyw newidiadau hefyd. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Souad Fawaz**

**Swydd: Deintydd**

**Dyddiad: 2 Awst 2017**